

Drwy e-bost i bob ysgol a choleg yng Nghymru



29 Ionawr 2021

Annwyl Bennaeth y Ganolfan,

Y diweddaraŷ ynglŷn â threfniadau asesu haf 2021

Gobeithiwn eich bod yn cadw'n iach. Byddwn yn anfon diweddariadau trefniadau asesu atoch am y cynlluniau ar gyfer cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch a chymwysterau galwedigaethol cymeradwy. Rydym am roi cymaint o wybodaeth ag y gallwn i chi cyn gynted ag y gallwn, fel eich bod chi a'ch cydweithwyr yn gwybod beth i'w ddisgwyl.

Diweddariad ar Gymwysterau Galwedigaethol

Yn ystod yr wythnosau diwethaf, byddwch wedi gweld cyhoeddiadau gan y llywodraeth yng Nghymru a Lloegr ar y sefyllfa o ran polisi ar gyfer cymwysterau yn 2021. Ein rôl fel rheoleiddiwr yw ymateb i'r newidiadau a rhoi'r fframweithiau rheoleiddio ar waith i ganiatáu i gyrrff dyfarnu ddyfarnu cymwysterau o dan yr amgylchiadau heriol hyn a galluogi cynifer o ddysgwyr â phosibl i symud ymlaen i gam nesaf eu dysgu neu i gyflogaeth.

Mae'r farchnad cymwysterau galwedigaethol yn gymhleth ac mae'r gwahanol ddulliau gweithredu sy'n ofynnol ar gyfer gwahanol fathau o gymwysterau yn golygu y gall fod yn anodd cyfleu'r sefyllfa'n glir ac yn gryno. Gwyddom y gall hyn achosi rhwystredigaeth i chi.

Gwyddom eich bod am gael eglurder a manylion i ateb y cwestiynau niferus sydd gennych wrth i chi geisio cefnogi eich dysgwyr i gwblhau eu cymwysterau. Gwn na fydd y diweddariad hwn yn ateb llawer o'r cwestiynau penodol hynny, ond hoffwn eich sicrhau ein bod yn gwneud popeth o fewn ein gallu i roi'r atebion sydd eu hangen arnoch cyn gynted â phosibl.

Hoffwn eich sicrhau bod cymwysterau galwedigaethol a gymerir gan ddysgwyr yng Nghymru yn cael yr un flaenoriaeth â chymwysterau cyffredinol gan fy staff yn

Qualifications Wales

Q2 Building, Pencarn Lane
Imperial Park,
Newport
NP10 8AR
☎ 01633 373 222



www.qualificationswales.org

Cymwysterau Cymru

Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial,
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

Cymwysterau Cymru. Gwn fod hynny'n wir hefyd am ein cydweithwyr yn Ofqual yr ydym yn gweithio'n agos iawn â nhw ar y dull o ymdrin â chymwysterau galwedigaethol. Caiff materion sy'n effeithio ar ddysgwyr yng Nghymru neu Ogledd Iwerddon eu trafod a'u hystyried mewn penderfyniadau ar gymwysterau galwedigaethol a wneir yn Lloegr.

Mae cyrff dyfarnu hefyd yn gwneud eu gorau i addasu ac ymateb i'r newid yn y dirwedd. Rydym i gyd yn canolbwyntio ar wneud popeth o fewn ein gallu i gefnogi cynnydd dysgwyr.

Mae Adran Addysg y DU ac Ofqual wedi ymgynghori ar y dull arfaethedig o ddyfarnu cymwysterau galwedigaethol a chymwysterau cyffredinol eraill yn haf 2021. Mae'r rhan fwyaf o'r cymwysterau galwedigaethol a gymerir gan ddysgwyr yng Nghymru hefyd yn cael eu rheoleiddio gan Ofqual ac maent o fewn cwmpas yr ymgynghoriad. Disgwyliwn y bydd canlyniadau'r ymgynghoriad ar gael ddiwedd mis Chwefror.

Cymwysterau a ddefnyddir ar gyfer dilyniant ochr yn ochr â chymwysterau cyffredinol, neu yn eu lle

Byddwn yn defnyddio'r un dull rheoleiddio ar gyfer cymwysterau galwedigaethol Cymeradwy Cymru yn unig ag a gymerir ar gyfer TGAU, UG a Safon Uwch Cymeradwy yng Nghymru. Bydd hyn yn berthnasol i gymwysterau lechyd a Gofal Cymdeithasol Lefel 2 a 3: Egwyddorion a Chyd-destunau. Ni fydd arholiadau allanol ysgrifenedig wedi'u trefnu yn cael eu cynnal ar gyfer y cymwysterau hyn a bydd dysgwyr yn derbyn gradd a bennir gan y ganolfan. Darperir rhagor o fanylion am y trefniadau amgen gan CBAC.

Ar gyfer cymwysterau tair gwlad, mae ymgynghoriad yr Adran Addysg ac Ofqual yn cynnig bod trefniadau asesu amgen yn cael eu rhoi ar waith ar gyfer cymwysterau galwedigaethol a chymwysterau cyffredinol eraill a ddefnyddir ar gyfer dilyniant i astudio pellach yn hytrach na TGAU, UG a Safon Uwch, neu ochr yn ochr â nhw. Ni fydd arholiadau allanol ysgrifenedig wedi'u trefnu yn cael eu cynnal ar gyfer y cymwysterau hyn. Mae'r rhain yn debygol o gynnwys cymwysterau a dderbyniodd raddau wedi'u cyfrifo yn haf 2020 fel BTEC, Dyfarniadau Galwedigaethol CBAC a Thystysgrifau a Diplomâu Cymhwysol, cymwysterau Cenedlaethol a Thechnegol Caergrawnt. Mae'r trefniadau amgen yn cynnig caniatáu i gyrff dyfarnu ddyfarnu cymwysterau lle na ellir cynnal arholiadau ac asesiadau, yn amodol ar ddysgwyr yn cwblhau asesiad digonol y gellir llunio barn wrthrychol ar eu perfformiad arno.

Deallaf eich bod am gael atebion ynglŷn â sut olwg fydd ar yr asesiadau amgen. Hyd nes y bydd y wybodaeth honno ar gael gan y cyrff dyfarnu, parhewch i addysgu cynnwys y cymhwyster i ddysgwyr a chwblhau unrhyw asesiad mewnol yn unol ag unrhyw addasiadau sydd ar waith lle mae'n ddiogel ac yn bosibl gwneud hynny.

Cymwysterau sy'n asesu cymhwysedd ymarferol

Dylai asesu ar gyfer cymwysterau galwedigaethol sy'n asesu cymhwysedd ymarferol barhau lle mae'n ddiogel gwneud hynny gyda'r addasiadau sydd ar waith ar hyn o bryd. Mae'r addasiadau ar gyfer cymwysterau galwedigaethol sy'n asesu cymhwysedd ar gael gan bob corff dyfarnu. Mae hyn yn cynnwys cymwysterau ymarfer Cymru'n unig mewn lechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant a chymwysterau a reoleiddir gan y tair gwlad. Dylech barhau i gyflwyno'r cymwysterau yn unol â'r addasiadau cyhoeddedig. Os nad ydych yn sicr beth yw'r addasiadau, dylech wirio gyda'r corff dyfarnu.

Y ffynhonnell orau o wybodaeth am gymwysterau unigol yw gwefan y corff dyfarnu neu cysylltwch â nhw'n uniongyrchol os ydych am gael unrhyw eglurhad. Os nad yw eich swyddog sicrhau ansawdd allanol (EQA) arferol ar gael, cysylltwch â'r corff dyfarnu yn uniongyrchol a rhowch wybod i ni os ydych yn cael trafferth cael atebion.

Yn anffodus, efallai y bydd angen gohirio rhai asesiadau os nad oes modd cyflwyno'r asesiad yn ddiogel, neu ar gyfer asesiadau ymarferol lle nad yw dysgwyr wedi derbyn digon o ddysgu i gyrraedd cymhwysedd galwedigaethol ac felly nad ydynt yn barod i sefyll yr asesiad. Nid oes dyddiad gorffen pryd y gall addasiadau aros yn eu lle a'n bwriad yw eu bod yn aros yn eu lle cyhyd ag y bo angen.

Cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru

Rydym yn siarad â rhanddeiliaid a chyrrff dyfarnu i ystyried yr opsiynau ar gyfer asesu a dyfarnu cymwysterau SHC eleni. Rydym hefyd yn trafod y dulliau gweithredu tebygol a fydd yn cael eu cymryd o ran cymwysterau Sgiliau Gweithredol yn Lloegr a Sgiliau Hanfodol yng Ngogledd Iwerddon gyda'n cyd-reoleiddwyr i lywio ein penderfyniad. Mae'r addasiadau presennol yn parhau i fod ar waith a gall asesu barhau lle mae'n ddiogel gwneud hynny. Byddwn yn rhoi diweddariad pellach ynghylch a fydd unrhyw drefniadau amgen yn cael eu cyflwyno ar gyfer cymwysterau SHC erbyn 12 Chwefror.

Diweddariadau wythnosol

Rydym yn bwriadu anfon diweddariadau wythnosol atoch bob dydd Gwener a chyn bo hir byddwn yn anfon gwybodaeth atoch am y fframwaith asesu troswaol ar gyfer TGAU, UG a Safon Uwch. Bydd hyn yn nodi gofynion lefel uchel ar gyfer ysgolion a cholegau fel bod rhywfaint o gysondeb o ran y dull gweithredu ledled Cymru yr haf hwn. Bydd y fframwaith troswaol yn rhoi trosolwg o:

- Math a maint y dystiolaeth y gellid ei defnyddio i gefnogi dyfarniadau gradd. Fe'i cynlluniwyd i roi sicrwydd i chi ynglŷn â'r dystiolaeth y bydd ei hangen, fel y gall y ffocws barhau ar addysgu a dysgu a chefnogi dysgwyr i

ddatblygu'r sgiliau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen arnynt i symud ymlaen.

- Sut y gellid llunio dyfarniadau gradd cyfannol, ffit orau.
- Yr angen i brosesau penderfynu gael eu datblygu a'u dogfennu er mwyn gallu dangos bod dyfarniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth wedi'u gwneud yn seiliedig ar resymeg gadarn.

Bydd llinell amser lefel uchel hefyd yn cael ei hanfon atoch yn fuan.

Rydym yn awyddus i goladu adborth dysgwyr yn ystod yr wythnosau nesaf. Os oes gan eich ysgol neu goleg unrhyw wybodaeth am sut mae dysgwyr yn teimlo, ac y byddech yn barod i rannu hyn gyda ni, cysylltwch â ni drwy ei anfon at cyfathrebu@cymwysteraucymru.org.

Yn gywir



Philip Blaker
Prif Weithredwr